PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI GWEITHREDIADAU CODI A CHARIO

| **Dyddiad** | **Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid** | **Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb** |
|---|---|---|
| 24 Mai 2017 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 28 Hydref 2022 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | 2 Mawrth 2022 |
| 4 Tachwedd 2025 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | 1 Hydref 2025 |

| **Swyddog Polisi** | **Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol** | **Cymeradwywyd yn y lle cyntaf gan** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Iechyd a Diogelwch | Prif Swyddog Gweithredu | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 24 Mai 2017 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2028

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae anafiadau codi a chario yn rhan o grŵp ehangach o anhwylderau cyhyrysgerbydol (MSD). Mae'r term 'anhwylderau cyhyrysgerbydol' yn cynnwys unrhyw anaf, niwed neu anhwylder y cymalau neu feinweoedd eraill yn yr aelodau uchaf/isaf neu'r cefn. Gallai anhwylderau cyhyrysgerbydol sy'n gysylltiedig â gwaith (WRMSDs) effeithio ar gyhyrau, cymalau a thendonau ymhob rhan o'r corff. Mae'r rhan fwyaf o anhwylderau cyhyrysgerbydol sy'n gysylltiedig â gwaith yn datblygu dros amser.

Mae ystadegau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi 543,000 o achosion newydd neu hirdymor o anhwylderau cyhyrysgerbydol sy'n gysylltiedig â gwaith, a 7.8 miliwn o ddiwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd anhwylderau cyhyrysgerbydol sy'n gysylltiedig â gwaith yn 2023/24. Mae trin â llaw a chodi a chario yn rhai o'r prif ffactorau achosol yn natblygiad anhwylderau cyhyrysgerbydol sy'n gysylltiedig â gwaith.

Er mwyn osgoi anafiadau a'r effeithiau iechyd tymor hir posib yn gysylltiedig â gweithgarwch codi a chario, rhaid i gyflogwyr geisio osgoi gweithrediadau codi a chario, cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, trwy ailgynllunio'r dasg i osgoi symud y llwyth neu drwy awtomeiddio neu fecaneiddio'r broses.  Os nad yw hyn yn bosib, rhaid paratoi asesiad addas a digonol o'r risgiau o weithrediadau codi a chario peryglus, gan roi ar waith reoliadau priodol i leihau risgiau.

## 2. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

At ddibenion y polisi hwn defnyddiwn y diffiniadau canlynol:

- Gweithred Codi a Chario: Unrhyw weithred sy'n cynnwys cludo neu gynnal llwyth (gan gynnwys ei godi, ei roi i lawr, ei wthio, ei dynnu, ei gario neu ei symud) â llaw neu nerth corfforol.

## 3. DATGANIAD POLISI A CHWMPAS

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau'r brifysgol a'i cholegau, ei gwasanaethau proffesiynol, a staff a myfyrwyr i sicrhau bod gweithrediadau codi a chario, sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau, yn cael eu cyflawni'n ddiogel.

**Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:**

- Pob coleg a gwasanaeth proffesiynol
- Staff, myfyrwyr ac eraill sy'n ymgymryd â thasgau codi a chario ar ran coleg, ysgol neu adran.

**Nid yw'r polisi'n berthnasol i'r isod:**

- Gweithrediadau codi a chario, yn gysylltiedig â gweithgarwch contractwr.

## 4. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG Â'R DDEDDFWRIAETH

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol hynny dan y gyfraith, mae gan y brifysgol a'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol sy'n perthyn iddi, ymrwymiad penodol dan Reoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992 (fel y diwygiwyd hwy), i asesu'r risgiau'n gysylltiedig â gweithrediadau codi a chario a chyflwyno mesurau i, gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, ddileu neu reoli risgiau.

## 5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Mae gan y brifysgol ddyletswydd gyffredinol i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr a / neu bobl eraill sy'n gwneud gweithrediadau codi a chario ar ran coleg / ysgol / gwasanaethau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys:

a. Sefydlu, trwy'r polisi hwn, weithdrefnau i gydymffurfio â deddfwriaeth i ddiogelu iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac eraill sy'n cyflawni gweithrediadau codi a chario fel rhan o weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r brifysgol.

b. Darparu adnoddau digonol yn gefn i weithredu'r polisi.

c. Dirprwyo, yn unol â system reoli'r brifysgol, y ddyletswydd i weithredu'r polisi i'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol.

## 6. CYFRIFOLDEBAU'R COLEGAU / GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae gan bob coleg a gwasanaeth proffesiynol ddyletswydd i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau codi a chario a wneir gan staff, myfyrwyr ac eraill fel rhan o weithgaredd y coleg / ysgol / gwasanaeth. Gan hynny mae'n rhaid i bob coleg a gwasanaeth proffesiynol wneud y canlynol:

a. Gweithredu trefniadau rheoli i ddileu gweithrediadau codi a chario, neu, os nad yw hynny'n bosib, leihau'r risgiau sy'n deillio o dasg godi a chario.

b. Nodi'r holl weithrediadau codi a chario yn eu maes cyfrifoldeb.

c. Gan ddibynnu ar natur y gweithrediadau codi a chario (e.e. mynychder, cymhlethdod), enwebu aelod staff cymwys i weithredu fel 'Aseswr Codi a Chario' lleol

d. Gwnewch werthusiad rhagarweiniol o weithrediadau codi a chario gan ddefnyddio offeryn iechyd a diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (gwelwch 'Rhagor o Ganllawiau' isod).

e. Trefnwch asesiad risg mwy manwl (os yw'r asesiad rhagarweiniol yn dangos bod angen un), sy'n ystyried y dasg i'w gwneud ac anghenion amrywiol yr unigolion sy'n gwneud y dasg, e.e. gallu corfforol.

f. Sefydlwch reoliadau, yn unol â'r asesiad risg.

g. Prynwch gymhorthion mecanyddol addas, os oes angen yn unol â'r asesiad risg.

h. Dylid archwilio a chynnal cymhorthion fel bo'r angen fel bo'r angen i sicrhau eu bod mewn cyflwr da.

i. Darparu cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth addas i staff, myfyrwyr ac eraill sy'n codi a chario, i'w gwneud yn ymwybodol o'r risgiau posib yn gysylltiedig â'r dasg, a'r technegau cywir i'w dilyn a chyfarpar i'w ddefnyddio.

j. Adolygu'r asesiadau risg yn rheolaidd, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf fel bo angen.

k. Sicrhau y rhoddir gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chodi a chario i Iechyd a Diogelwch ar unwaith, ac yr ymchwilir iddynt felly, gan weithredu lle bo'n bosib atal y peth rhag digwydd drachefn.

l. Cadw cofnodion fel bo'r angen, e.e. asesiadau risg, hyfforddiant, archwiliadau, cynnal a chadw a chofnodion statudol[1].

## 7. DYLETSWYDDAU STAFF A MYFYRWYR

Rhaid i staff, myfyrwyr ac eraill (e.e. gwirfoddolwyr) sy'n ymgymryd â thasgau codi a chario fel rhan o weithgarwch coleg / ysgol / gwasanaeth wneud y canlynol:

a. Dilyn pob cyfarwyddyd a hyfforddiant a roddir i sicrhau iechyd, diogelwch a lles wrth wneud y dasg codi a chario.

b. Defnyddio offer sydd wedi eu darparu i leihau gweithrediadau a risgiau codi a chario mewn modd cywir.

c. Peidio byth â brwydro i wneud tasg sydd y tu hwnt i'w gallu corfforol a / neu hyfforddiant a chyfarwyddyd.

d. Rhoi gwybod yn syth i'w goruchwyliwr, rheolwr atebol neu gydlynydd iechyd a diogelwch, neu'n uniongyrchol i Iechyd a Diogelwch, am unrhyw beth, yn cynnwys salwch neu gyflyrau meddygol, a allai effeithio ar eu ffitrwydd i wneud tasgau codi a chario.

e. Rhoi gwybod yn syth am unrhyw bryderon, damweiniau neu ddigwyddiadau i'w goruchwyliwr, rheolwr llinell, a chydlynydd iechyd a diogelwch, neu'n uniongyrchol i Iechyd a Diogelwch.

## 8. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, deellir efallai y bydd rhaid trin 'pobl sydd â nodwedd warchodedig' yn wahanol mewn rhai achosion prin iawn er mwyn diogelu eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles hwythau wrth ymgymryd â gweithrediadau codi a chario. Caiff unrhyw ystyriaethau o'r fath eu trafod gyda'r unigolyn a chytuno ynglŷn ag addasiadau rhesymol pan fo hynny'n bosib.

Nodir y dylid defnyddio asesiadau risg iechyd a diogelwch i alluogi staff a myfyrwyr i ymgymryd â'u tasgau yn ddiogel ac nid fel trefn i'w defnyddio i atal gweithgaredd am fod elfen o risg yn bodoli. Dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi staff a myfyrwyr i'w cynorthwyo i ymgymryd â'u tasgau yn yr un modd ac yn yr un cyfnod amser â'u cyfoedion.

## 9. CANLLAWIAU PELLACH

Yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y polisi hwn, mae canllawiau mwy ymarferol a gweithdrefnol ar gael ar we-dudalen codi a chario Iechyd a Diogelwch y brifysgol yn ogystal â chyfeirio at ganllawiau awdurdodol perthnasol, gan gynnwys 'offerynnau' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i nodi ac asesu risgiau codi a chario (HSE Toolkit for MSDs).

## 10. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Gall Iechyd a Diogelwch a Lles y Campws gynnal archwiliadau neu adolygiadau achlysurol i asesu effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn.

1 Mae'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER) yn berthnasol i rai cymhorthion codi e.e. tryciau paledau. Rhaid hysbysu Swyddog Yswiriant y brifysgol am y cyfryw eitemau i sicrhau bod peiriannydd cymwys yn gwneud archwiliadau statudol

Rhaid i'r colegau / gwasanaethau proffesiynol adolygu eu gweithdrefnau eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi'n cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu y cytunwyd arni, a bydd Bwrdd Gweithredol y brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

**Diwedd.**